

Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid yr Wylfa**A gynhaliwyd yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu yr Wylfa) ar dydd Iau 10 Mawrth 2010 am 3y.h.****Yn bresenol:**

AM Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid yr Wylfa
DS Law	Dirprwy Cyfarwyddwr Safle yr Wylfa, Magnox Cyf.
P Harrop	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / Awdurdod Digomisiynu Niwclear
Cynrychiolydd	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear
M Pigott	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear
L P Davies	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear
J Milburn	Magnox Cyf
M Thornton	Magnox Cyf
K White	Magnox Cyf
M Humphreys	Magnox Cyf
T Roberts	Magnox Cyf
K Hughes	Capita
A Hughes	Capita
Cyng. K Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Gward Llanfaethlu
Cyng. WT Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Gward Llanbadrig
Cyng. JV Owen	Cyngor Sir Ynys Môn – Gward Parc a'r Mynydd
Cyng. T Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Gward Mechell
Clyng. D Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Gward Porth Amlwch
E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
T Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
GM Roberts	Cyngor Cymuned Mechell
JH Jones	Is-Gadeirydd Chair Grŵp Rhanddeiliaid yr Wylfa/Cyngor Cymuned Mechell
WE Rowley	Cyngor Cymuned Cylch y Garn
M Wymer	Cwmni Ymddiriedolaeth Bodorgan Cyf.
T Conway	Cymdeithas Ymddeolwyr yr Wylfa
LW Jones	Prosiect Ynys Ynni – Cyngor Sir Ynys Môn
G Hughes	Cronfa Padrig
A Hall	Dŵr Cymru
T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
JC Jones	Undeb Cenedlaethol Ffermwyr
K Williams	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/ Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
L Jones	Prifysgol Bangor
M O'Hara	Cyn-weithiwr yr Wylfa sydd wedi ymddeol /Preswylydd lleol
E Mason	Cyn-weithiwr yr Wylfa sydd wedi ymddeol /Preswylydd lleol
In Attendance	
C Evans-Thau	Partneriaeth Adfywio Amlwch (Ysgrifynyddes Cofnodion)
Cymen	Cyfieithu ar y Pryd

1 CROESO A DERBYN YMDDIRHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- 2630 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Croesoawodd AM Jones, Karin White yn ôl i'r grŵp gan ei bod wedi bod i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch. Mynegodd AM Jones ei ddiolch i Karen Gughes ac Arwel Hughes, bydd y ddau yn gadael eu swyddi yn yr adran Cyfathrebu ar ddiwedd mis Mawrth 2011
- 2631 Derbyniwyd ymddirheuriadau gan N Gore (Cyfarwyddwr Safle yr Wylfa), JI Jones (Pennaeth Datblygu Economaidd-Gymdeithasol Magnox gogledd Cymru), IW Jones (Aelod Cynulliad – Ynys

Môn), SW Davies (Cyfarwyddwr Prosiect Ynys Ynni, Cyngor Sir Ynys Môn), J Honey (Rheolwr Gweithredu - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru), Y Fonesig Anglesey, H Parry (Ymddiriedolaeth Stad Bodorgan), J Jones (Ysgol Syr Thomas Jones), Dr D Gadson (FIACP), S Andrews (Iechyd Cyhoeddus Cymru), L Jones (Cyfathrebu Magnox, Wylfa), Cyng. GW Roberts OBE Cyngor Sir Ynys Môn).

2 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 16 RHAGFYR 2010

2632 Derbyniwyd cofnodion o'r cyfarfod diwethaf i fod yn gywir. Cynigwyd gan M O'Hara, eiliwyd gan Cyng. K Hughes.

3 MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

2633 Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

4 DERBYN ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y SAFLE

2634 Dosbarthwyd copi o'r Adroddiad y Cyfarwyddwr Safle cyn y cyfarfod. Yn absenoldeb N Gore, rhoddwyd grynodedb byr o'r adroddiad gan DS Law (Is-Gyfarwyddwr y Safle)

2635 Hysbysodd DS Law i'r grŵp fod 5 grŵp o'r Wylfa wedi ymweld a gorsafodd niwclear yn yr UDA. Roedd yr ymweliadau hynny wedi bod yn lwyddiannus ac yn sgil yr ymweliadau bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i ymgorffori arferion gorau yn Wylfa.

2636 Er bod pryder ynglŷn a 3 digwyddiad o lithro, baglu a disgyn, dywedodd DS Law fod gwaith ar droed i lefelu gorchuddion ffosydd â leolir ar yr is-lawr pan ddigwyddodd un o'r digwyddiadau. Baglodd yr unigolyn mewn cwestiwn dros ysgafell 11mm – roedd hon angen ei newid. Yn unol a'r adroddiad Cyfarwyddwr Safle, bydd y safle yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth llithro, baglu a disgyn yn 2011.

2637 Esboniodd DS Law i'r rhai oedd yn bresenol fod y tywydd garw yn Rhagfyr wedi profi i fod yn her, ond drwy gydweithio gyda'r cyngor sir i gadw'r A5025 ar agor, a chynllun cerbyd 4x4, roedd gweithwyr wedi gallu cyrraedd y safle ac nid oedd gweithgareddau yr orsaf wedi eu heffeithio. Yn Ionawr 2011 cynhaliwyd arolygaeth ar sut oedd y safle wedi ymdopi gyda'r digwyddiad a gosodwyd nifer o gamau gweithredu er mwyn galluogi'r safle i ymdopi'n well petai digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

2638 Yn ogystal ymyrodd y tywydd garw ar brif gyflenwad dŵr i'r orsaf; am 5yb ar Noswyl Nadolig cafwyd fyrst ym mhibellau cyflenwi dwr yn Llyn Alaw. Hysbyswyd y safle a sicrheuwyd fod digon o ddŵr ar gael drwy gludo dŵr i'r safle mewn tanceri dros cyfnod y Nadolig. Esboniodd DS Law fod lefelau dŵr yn cael eu monitro tu fewn i gronfa dwr miliwn galwyn ar y safle, petasai lefel y dwr wedi cyrraedd lefel penodol o fewn y tanc roedd gan y safle mesurau yn eu lle i ddiffod rhannau o'r safle am resymau diogelwch.

2639 Yn ystod y cyfnod adroddiad cafwyd ymweliad i'r safle gan Mr Tony Fountain (Prif Swyddog Gweithredol yr ADN) yr oedd yn gadarnhaol iawn ac cafodd argraff dda i'r hyn a welodd ac y croeso a dderbyniodd ar y safle.

5 DERBYN ADRODDIAD CADEIRYDD Y GRŴP RHANDDEILIAID

2640 Dosbarthwyd copi o'r Adroddiad Cadeirydd cyn y cyfarfod. Rhoddodd AM Jones grynodedb byr o'r cyfarfodydd â fynychodd ar rhan y grŵp, atgoffodd AM Jones y rhai sy'n bresenol fod y Awdurdod Heddlu Sifil Niwclear (AHSN) yn cynnal cyfarfod cyhoeddus blynyddol yn y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol ar 23 Mawrth. Esboniodd AM Jones fod y AHSN yn cynnal eu cyfarfod blynyddol mewn sawl ardal ar draws y DU, ychwanegodd pwysigrwydd mynychu y cyfarfod oherwydd byddant yn trafod materion lleol.

2641 Cadarnhawyd fod y Heddlu Sifil Niwclear (HSN) yn bresenol ar safleoedd sy'n cynhyrchu trydan neu tra fod tanwydd ar y safle, neu yn ystod adeiladu newydd. Fe all hyn olygu na fydd y HSN yn bresennol yn yr Wylfa rhwng cyfnod pan fod yr orsaf cyfredol yn gorffen cynhyrchu trydan a cychwyn posib i adeiladu gorsaf newydd.

2642 Nid oedd unrhyw gwestiynau ynghylch ac adroddiad y Cadeirydd.

6 Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD DIGOMISIYNU NIWCLEAR

- 2643 Cyn rhoi crynodeb o'r adroddiad gan yr ADN, dymunodd P Harrop longyfarchiadau i weithlu'r safle cyfredol a'r gorffennol am 40 mlynedd o gynhyrchu trydan yn ddiogel. Dechreuodd Wylfa gynhyrchu trydan ar 24 Ionawr 1971.
- 2644 Mynegodd P Harrop fod adroddiad diweddaraf yr ADN Chwefror 2011 wedi ei ddsbarthu i'r aeoldau cyn y cyfarfod a byddai'n hoffi tynnu sylw yr aelodau i'r cynlluniau newydd ers cyhoeddi'r adroddiad.
- 2645 System Gwaredu Achosion Diogelwch Generig. Mae cyfres o adroddiadau gwyddonol a thechnegol wedi cael eu cyhoeddi gan wyddonwyr a pheirianwyr o'r Cyfarwyddiaeth Reoli Gwastraff Ymbelydro NDA (Radioactive Waste Management Directorate)
- 2646 Papur Opsiynau Plwtoniwm. Mae'r NDA wedi cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r Dadansoddiad Opsiynau Credadwy Plwtoniwm sy'n ystyried nifer o ddatblygiadau newydd ers y papur gwreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2009. Mae'r adroddiad diweddaraf wedi'i anfon at y Llywodraeth ac lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus, derbynnywyd 73 o sylwadau.
- 2647 Strategaeth NDA - dyddiad cyhoeddi y strategaeth fydd 21/3/11; cafodd y dyddiad yma ei osod er mwyn osgoi gwrthdaro â'r cyfnod cyn-etholiadol yng Nghymru a'r Alban. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a lle bo modd fe roddir hystyried i'r sylwadau yn y ddogfen derfynol.
- 2648 Cynllun Busnes yr NDA - Mae cyfnod ymgynghorol y Cynllun Busnes yr NDA nawr wedi dod i ben. Derbyniwyd 15 set o sylwadau cefnogol, fe fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi diwedd mis Mawrth yn dilyn cymeradwyaeth Gwenidogiol.
- 2649 Economaidd-Gymdeithasol – Yn ddiweddar cymeradwyodd yr NDA £170k ar gyfer prosiect 'Reach for Tomorrow,' sef rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig Ynys Môn 2011-14. Mae'r prosiect yn cefnogi Rhaglen Ynys Ynni ac yn anelu at gefnogi menter, arloesedd a datblygu cynnyrch newydd yn Môn.
- 2650 Mae'r Panel a Pwyllgor Economaidd-Gymdeithasol yr NDA wedi dirwyn i ben yn ffurfiol. O hyn ymlaen bydd ceisiadau sy'n werth llai na £500k yn cael ei cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid (John Phillips), a bydd ceisiadau sy'n fwy na £ 500k yn mynd at Brif Pwyllgor Sanctsiynu'r NDA. Mae'r NDA yn cynnal trafodaethau gyda Gweithrediaeth Cyfranddaliwr i symud y trothwy o £500k ar gyfer cymeradwyaeth gan y Llywodraeth (nid yw hyn wedi ei gytuno eto).
- 2651 Dylai'r trefniadau llywodraethu newydd wella effeithlonrwydd y broses o wneud ceisiadau economaidd-cymdeithasol. Mae gwaith yn parhau i roi mwy o gyfrifoldeb i Magnox Cyf ar gyfer darparu cymorth economaidd-gymdeithasol; gan gynnwys cynyddu terfyn yr arian sydd ar gael gan Magnox ar gyfer gwariant economaidd-cymdeithasol.
- 2652 Nid oedd unrhyw gwestiynau o'r llawr.

7 ADRODDIAD AROLYGYDD AROLYGIADAU NIWCLEAR EM

- 2653 Dywedodd L Davies fod yr adroddiad a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2010. Aeth ymlaen i hysbysu'r grŵp er na chafodd ei grybwyll yn y cyfarfod GRhS diwethaf, cynhaliwyd ymarfer Lefel 1 yn Wylfa ym mis Tachwedd 2010, roedd yr ymarfer yn arddangos trefniadau brys yr Wylfa yn ystod oriau tu allan i oriau cyffredin. Cynhaliwyd yr ymarfer yn gynnar gyda'r nos.
- 2654 Mae'r NII yn cymryd rhan gweithredol yn yr ail-uniad rhwng Magnox North a Magnox South. Ar hyn o bryd mae is-adrannau gwahanol yn gweithio ochr yn ochr (North / South) gyda'r bwriad i integreiddio ymhellach gydag amser.

Cynhaliwyd Adolygiad Blynyddol Diogelwch yr Wylfa ar y safle yr wythnos hon, meddai'r NII fod hon yn adolygiad derbyniol.

- 2655 Hysbyswyd y grŵp o newidiadau posib i ddyfodol yr NII. O Ebrill 1af 2011, bydd yr NII yn rhan o'r HSE ac bydd yr asiantaeth yma yn fwy annibynnol - y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.
- 2656 Gofynnodd AM Jones paham roedd yr NII yn dymuno gadael yr HSE. Esboniodd L Davies bod hyn yn bennaf oherwydd yr hyblygrwydd ac annibyniaeth a gynigir drwy fod ar wahân i'r HSE
- 2657 Gofynnodd T Conway a fyddai'r sefydliad newydd yn cael ei staffio yn yr un ffordd, h.y. Bydd gweision sifil a chontractwyr presennol yn parhau i fod yn ran o'r sefydliad? Esboniodd L Davies y byddai'r staff a chontractwyr yn symud gyda'r sefydliad ac y bydd contractiau cyflogaeth yn parhau.
- 2658 Gofynnodd T Conway wrth L Davies os bu i Wylfa gysylltu a'r NII o ran y mater prinder dŵr dros gyfnod y Nadolig, ac os bydd yr NII yn nodi unrhyw anghenion i ddelio â materion o'r fath eto e.e. tanciau storio ychwanegol. Atebodd L Davies na fyddai'r NII yn nodi unrhyw anghenion o'r fath, ac ei fod yn fodlon bod y lefelau dŵr yn cael eu monitro yn ddigonol; ychwanegodd ei fod wedi bod yn ymwybodol o'r sefyllfa tra oedd yn datblygu. Petai lefel y dŵr wedi cyrraedd cyflwr critigol, yna byddai'r safle wedi cau yr Adweithyddion am resymau diogelwch.
- 2659 Ni chafwyd unrhyw gwestiynnau.

8 Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN IS-GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL GRhS YR WYLFA

- 2660 Hysbysodd J Jones fod y grŵp wedi cyfarfod ar 27 Ionawr 2011 i drafod pedwar cais a dderbyniwyd yn gofyn am gyllid gan yr NDA. Argymhellwyd i'r NDA i gymeradwyo y 4 cais. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd cylchlythyr economaidd-gymdeithasol wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar - o hyn ymlaen bydd gwybodaeth economaidd gymdeithasol yn cael ei gynnwys yn 'Wylpower' y cylchlythyr chwarterol yr Wylfa. Daeth i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi ei wario a bod y grŵp yn gobeithio i gyfarfod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf i drafod unrhyw geisiadau newydd a dderbyniwyd
- 2661 Ni chafwyd unrhyw gwestiynnau.

9 Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN IS-GRŴP GWASTRAFF GRhS YR WYLFA

- 2662 Dywedodd AM Jones fod y grŵp wedi cyfarfod ar Chwefror 21, 2011 - fel canlyniad cyhoeddwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp a bod copïau ar gael yn awr. Bydd y Cylch Gorchwyl cael eu trafod yn fanylach yn y cyfarfod GRhS nesaf ym mis Mehefin.
- 2663 Atgoffodd J Jones yr aelodau bod y Cylch Gorchwyl a osodir yn datgan cyfrifoldeb yr is-grŵp i edrych yn fanwl ar reoli gwastraff ar y safle ar ran y GRhS ac yna adrodd yn ôl i'r aelodau drwy gyfrwng y cyfarfod hwn..
- 2664 Rhoddodd M Thornton grynodiad byr o rai o'r prif bwyntiau a drafodwyd yn y cyfarfod is-grŵp sy'n ymwneud â safle'r Wylfa. Roedd y rhain fel a ganlyn:
- 2665 Cynhaliwyd ymweliad ac arolygiad ar y cyd rhwng yr Asiantaeth yr Amgylchedd a'r NII yn mis Mai 2010; roeddent yn edrych ar y modd yr oedd y safle yn rheoli a chlirio deunyddiau; nodwyd rhai argymhellion ar gyfer arferion gorau sydd bellach wedi cael eu mabwysiadu.
- 2666 Mae'r safle yn gofyn am gymeradwyaeth i newidiadau i'r Awdurdodiad Safle / Trwyddedau i ganiatáu prosesu y canlynol oddi ar y safle; Asbestos Ymbelydrol, gwastraff solid olewog, metelau gwastraff lefel isaf ar gyfer ailgylchu; mae hyn nawr yn mynd yn ei flaen ar ol derbyn cymeradwyaeth gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd.
- 2667 Mae'r holl elfennau a ddifodir yn Nghell Storio Sych 4 wedi cael eu tynnu yn awr er bod rhai malurion yn parhau i fod yn bresenol. Mae'r safle ar hyn o bryd yn cymryd camau cynllunio i fynd i'r afael a'r sefyllfa a bydd yr is-grŵp Gwastraff yn cymryd rhan a bydd y grŵp yn adrodd yn ôl i'r GRhS.
- 2668 Ym mis Ionawr 2011 torrwyd terfynnau Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer metelau trwm radio-weithredol o losgydd yn Wylfa. Mae ymchwiliadau hyd yma wedi bod amhendant, ond maent yn

parhau.

2669 Mae rhestr 'Smart' wedi arwain at ostyngiad yn y swm o wastraff lefel isel sy'n codi yn ystod paratodau Gofal a Chynnal hyd at dros 50%.

2670 Mae Safle Wylfa wedi bod yn gweithio gyda Cogent SSC i ddatblygu safon genedlaethol swyddi ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rheoli gwastraff ar safleoedd niwclear, bydd Cyd-destunau Swyddi yn cael eu hysbysu rywbryd eleni.

2671 Ni chafwyd unrhyw gwestiynnau.

10 SESIWN HOLI AC ATEB AGORED

2672 Ni chafwyd unrhyw gwestiynnau.

11 UNRHYW FATER ARALL

2673 Atgoffodd AM Jones y rhai oedd yn bresenol bod cyfarfod cyhoeddus yw gynnal gan Grwp Cyswllt Horizon yn ystafelloedd Eleth ac Eilian am 5.30pm.

12 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

2674 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ddydd Iau, Mehefin 2ail, i ddechrau am 15:00.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynnau, daeth y cyfarfod I ben am 3.40pm.